



Ymatebion Ymgynghoriad Statudol Ysgol Chwilog

Ymatebion Ymgynghoriad Statudol

Cynnig i gynyddu capasiti yr ysgol o 65 i 95 o ddysgwyr drwy ychwanegu dosbarth
i Ysgol Chwilog i fod yn weithredol 1 Medi 2023

Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol i ...
(Cyfnod Ymgynghori Statudol 19 Hydref – 30 Tachwedd 2022)

Derbyniwyd 18 ymateb ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol

NODER – Mae'r sylwadau wedi eu dyfynnu'n uniongyrchol o'r ymatebion.

	Ymateb i'r Ymgynghoriad	Ymateb Cyngor Gwynedd
1.	Cefnogaeth i'r Cynnig	
1.1	Cytuno y dylid ychwanegu dosbarth ychwanegol yn Ysgol Chwilog.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.
1.2	Gofynnwyd i mi eich hysbysu fod y Cyngor Cymuned yn ffafrio'r opsiwn o gael dosbarth newydd yn Ysgol Chwilog a dim y ddau opsiwn arall.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.
1.3	Croesawu y cynnig	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.
1.4	Mae cynyddu'r capasiti a chyfleusterau'r ysgol yn mynd i arwain y ffordd at wella'r ansawdd dysgu.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.
2.	Niferoedd plant	
2.1	Rwyf yn teimlo yn gryf iawn fod yr ysgol angen y buddsoddiad hwn. Mae caniatâd wedi ei roi i adeiladu tair stad newydd o dai yn Chwilog, gydag un bellach wedi ei adeiladu a phobl wedi symud i mewn i'w tai. Mae hyn wedi cynyddu poblogaeth y pentref, sydd wedi dilyn i lawer mwy o blant yn byw yma, ac eisiau mynychu yr ysgol. Mi fydd hyn yn cynyddu eto. Mae'r pentref yn ffynnu, ac mae angen addasu'r ysgol i gyd fynd a hyn. Mae'naws Cymraeg yr ysgol yn atynnu teuluoedd ifanc i'r pentref, a byddai yn siom fawr iawn peidio gallu cynnig lle i bob plentyn sydd yn byw yn y pentref i fynychu yr ysgol.	Dyfodiad y stadau tai newydd ydi prif yrrwr yr angen am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwilog gan ein bod yn rhagweld y bydd nifer o deuluoedd gyda phlant oed cynradd yn mynd i fyw ynddynt. Rydym felly yn cynllunio ar eu cyfer drwy greu 30 mwy o lefydd yn yr ysgol.

2.2	Y sylw cyntaf yw nad yw'r cynnig i weld yn cyfarch y gofyn yn llawn o ran beth yw'r amcan fydd niferoedd plant yr ysgol erbyn Medi 2027 (109), mae hynny yn effeithio'r gofyn nid yn unig ar nifer y dosbarthiadau, ond hefyd am faint y dosbarthiadau presennol.	Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar wybodaeth rydym wedi ei dderbyn gan yr ysgol ym Medi 2022 ac amcan o unrhyw blant oed cynradd newydd posib fydd yn byw yn y tai newydd yn dilyn eu hadeiladu. Mae'n rhaid nodi hefyd fod y rhagamcanion o 109 o ddysgwyr ar gyfer Medi 2027 ar gyfer plant meithrin – blwyddyn 6. Rydym felly o'r farn fod cynyddu capasiti i 95 (derbyn – blwyddyn 6) + 13 meithrin, sef 108 o ddysgwyr, yn synhwyrol i ymateb i'r rhagamcanion gan nad oes unrhyw sicrwydd y bydd y niferoedd yn cael eu gwireddu. Serch hynny, byddwn yn monitro unrhyw gynnydd yn flynyddol ac yn ymateb yn brydlon i unrhyw angen i gynyddu capasiti ymhellach.
2.3	Rwy'n croesawu'r cynnig fel datrysiad dros dro. Mae'r ysgol mewn dybryd angen cynyddu ei gapasiti. Mae'r ysgol eisoes wedi profi cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion ac mae rhagolygon o gynnydd pellach heibio 95 disgybl yn y blynyddoedd nesaf. Bydd angen edrych felly ar gynyddu'r capasiti ymhellach yn y dyfodol ac ar ddatblygu adeiladau presennol ac adnoddau'r ysgol i gyfarch y cynydd.	
2.4	Er yn croesawu'r cynnig yma fel ateb dros dro i sefyllfa capasiti yr ysgol, mae angen meddwl am opsiynau hir dymor hefyd gan bod y niferoedd yn cynyddu yn bell dros 95 erbyn 2027.	
2.5	Croesawn egwyddor y cynnig yma fel datrysiad dros dro, ond yn hir dymor mae'n hollol amlwg nad ydyw yn cyfarch y rhagolygon capasiti'r ysgol o 109 erbyn 2027, sydd bellach ond pedair mlynedd addysgol i ffwrdd.	
2.6	Y mae'r opsiwn yn iawn fel opsiwn dros dro, ond gyda'r cynnydd mewn pobl yn dod i fyw i'r pentref a dwy stad o dai arall ar y ffordd mae'n bwysig bod ystyriaeth hir dymor yn cael ei roi.	
3. Effaith ar trafndiaeth		
3.1	Cefnogaf yn llwyr y syniad o gynyddu capasiti Ysgol Chwilog. Yr unig bryder sydd gennyf ydy beth fydd y sefyllfa ynglyn a thrafnudiaeth. Y mae'r ddarpariaeth parcio ar hyn o bryd yn hynod o annigonol ac y mae'r syniad o annog plant y pentref i gerdded i'r ysgol hefyd yn anaddas gan bod hynny yn digwydd	Fel nodwyd yn y ddogfen ymgynghori fod y Cyngor wedi adnabod y posibilrwydd y bydd cynyddu capasiti yn creu problemau parcio/ a thraffig ychwanegol.

	eisoes yn y rhan fwyaf o achosion. Y mae safle dros y ffordd a'r tro am yr ysgol wedi dod ar werth eto-oni fyddai posib i'r Cyngor wneud pryniant gorfodol ar ran o'r safle honno tybed?	<p>Gan fod y stadau tai newydd, sef prif yrrwr yr angen am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwillog, wedi eu lleoli o fewn pellter rhesymol i'r ysgol, a bod llwybrau troed rhwng y stadau â'r ysgol, yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru, byddwn yn annog dysgwyr i ddefnyddio teithio llesol i'r ysgol e.e. cerdded a beicio. Byddai gwneud hyn yn sicrhau na fydd y cynnydd yn niferoedd dysgwyr yn arwain at gynnydd yn nefnydd ceir i'r ysgol.</p> <p>Byddwn hefyd yn comisiynu arolwg er mwyn deall y problemau sy'n cael eu creu o ganlyniad i ddefnyddio ceir i gludo plant i'r ysgol gan adnabod ac asesu unrhyw ffyrdd i oresgyn y problemau.</p>
3.2	Cynyddu problemau parcio, na fydd yn rhai tymor byr, ond yn rhai parhaol.	
3.3	Angen sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i ddiogelwch y plant wrth gyrraedd a gadael yr ysgol, gyda'r traffig sydd yno wrth gludo plant a traffig cyffredinol sy'n gyrru drwy'r pentref. Drwy gynyddu'r capasiti mae'n debyg mai gwaethygu fydd y broblem yma	
3.4	Mae parcio wedi bod yn broblem barhaus yma - nid oes lle i rieni droi rownd ayb Gall fod yn sefyllfa beryglus ar brydiau. Bydd lorïau a faniau hefyd yn dod yma gyda nwyddau i'r gegin ayb ac nid oes fawr o le iddyn hwythau droi. Heb os ac oni bai byddai safonau addysg yn gwella a byddai'r ysgol yn le brafiach i fod ynddi.	
3.5	Trefniadau Teithio - Mae parcio yn broblem. Nid oes lle i rieni droi rownd na pharcio wrth yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod y rhieni yn stopio eu ceir mewn llefydd anaddas, thu allan i giat yr ysgol. Mae hyn yn achosi traffig ac yn beryg.	
3.6	Nid oes lle parcio i'r rhieni nol ei plant, mae gallu fod yn reit beryglus amser plant dod i'r ysgol ac adref, llawer yn bagio fewn i'r iard barcio y staff oherwydd does ganddynt dim lle i droi.	
3.7	Does dim lle addas i rieni ddod a car fyny lon yr ysgol i nol y plant, diffyg lle pario.	

3.8	Mae na lot o bryder am y traffic gan mai lon fach gul iawn sy'n arwain at yr ysgol, ac yn hynny o beth mae'n biti na fyddai modd adnabod llain o dir cul i greu llwybr troed i'r ysgol o'r brif stryd yn y pentref fel nad ydi cerddwyr yn gorfod dod fyny'r lon gul at yr ysgol o gwbl. Byddai hynny hefyd yn lleihau traffic sy'n troi fyny y lon fach gul tu allan i'r ysgol	
3.9	Mae mynediad i'r ysgol ar ffordd fach gyfyng yn bryder, a ellid ystyried opsiynau lliniaru ar gyfer traffig. Mae'n rhaid sicrhau diogelwch disgyblion a rhieni a'u teuluoedd wrth gerdded i'r ysgol. Un opsiwn mae'n werth ei ystyried ydi i adnabod llain o dir addas i'r Cyngor brynu er mwyn greu llwybr troed o'r brif stryd i fyny at iard yr ysgol.	
3.10	Ystyried cynnig cludiant i ddisgyblion sy'n mynychu y tu allan i ardal Chwilog.	Mae polisi cludiant Cyngor Gwynedd yn cynnig cludiant di-dâl ar gyfer dysgwyr sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin). Pe byddai'r Cyngor yn ymestyn y cynnig i blant y tu allan i ddalgylch Chwilog, byddai rhaid rhoi'r un cynnig i bob ysgol ar draws y sir ac ni fyddai hynny'n gynaliadwy.
4. Addasrwydd yr ysgol		
4.1	Er ei fod yn ateb tymor byr digon derbyniol, mae'n anodd gweld sut mae caban yn diwallu angenion yr ysgol fel un endid. Bydd cynyddu'r capasti yn cael effaith ar y gegin a'r ffreutur, ac nid oes ystafell athrawon/staff bwrpasol yn yr ysgol. Nid yw'n amlwg os oes toiledau yn y 'caban', gan o bosib fynd a'r plant yn ol i oes Victoria gyda'r angen i groesi'r iard i gael toilet. Gan eich bod wedi nodi bod niferoedd yr ysgol wedi cynyddu dros nifer o flynyddoedd, dylai strwythur mwy parhaol i wella'r ysgol fod mewn grym ers peth amser, yn hytrach na chaban 11fed awr ar ddeg.	<p>Mae swyddogion o'r Adrannau Addysg ac Eiddo wedi ymweld ag Ysgol Chwilog i gynnal asesiad addasrwydd er mwyn adnabod unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud i sicrhau amgylchedd addas a digonol ar gyfer anghenion yr ysgol.</p> <p>O ganlyniad, gallwn gadarnhau y byddwn yn ymateb i'r angen i addasu adnoddau drwy unai eu lleoli fel rhan o'r Uned newydd neu drwy gynnal addasiadau i'r prif adeilad. Bydd hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Creu dosbarth ychwanegol yn yr Uned newydd • Creu toiledau plant ychwanegol yn yr Uned

4.2	<p>Rwyf yn croesawu'r cynnig yn naturiol ond mae angen ystyried ychydig o bethau yn ychwanegol i'r ystafell ddosbarth newydd sef -</p> <p>Ymestyn y neuadd i allu cynnig digon o le i'r plant fwyta eu cinio a chael gwersi addysg gorfforol ayyb</p> <p>Cael ystafell staff gall: ar hyn o bryd nid oes gofod addas ar gyfer amseroedd egwyl ag ati</p> <p>Toiledau ar gyfer oedolion braidd yn anaddas yn yr oes sydd ohoni.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Creu toiledau staff newydd yn yr Uned • Creu ystafell yn yr Uned ar gyfer gwaith CPA a gwaith 1:1 • Creu ystafell staff yn yr Uned • Creu mwy o le i hongian cotiau • Byddwn yn creu linc dan do o'r Uned l'r prif adeilad felly ni fydd angen i unrhyw un groesi'r iard l gyrraedd y prif adeilad. • Byddwn yn ymestyn y ffretur/neuadd er mwyn creu lle digonol ar gyfer y cynnydd yn y dyfodol.
4.3	<p>Oes posib hefyd ystyried addasrwydd y neuadd sy'n hynod o fach i ysgol o 109 blant, ynghyd â materion mwy ymarferol arall sy'n codi fel gofod storio / gofod i gynnal gwaith 1 i 1. Byddai hefyd yn braf iawn pe gellid lincio unrhyw gaban i'r prif adeilad rhyw ffordd.</p>	<p>Yn sgil y ffaith y bydd yr Uned yn creu gofod ychwanegol yn yr ysgol, bydd yn golygu digon o ofod i dderbyn plant y dosbarth meithrin yn ôl i safle'r ysgol.</p> <p>Un peth na fyddwn yn gallu ei wneud dan y cynllun hwn ydi addasu maint unrhyw ddsbarth sy'n bodoli'n barod gan y byddai gwneud hynny'n golygu newidiadau strwythurol fyddai tu hwnt i gyllideb y prosiect.</p>
4.4	<p>Mae angen edrych ar addasrwydd yr ysgol yn ei chyfanrwydd. Er diogelwch i blant a staff byddai'n fuddiol ystyried bod linc rhwng y caban a prif adeilad yr ysgol.</p>	<p>Mater i'r Adran Cynnal a Chadw ydi tamprwydd a byddwn yn rhannu eich pryderon gyda nhw.</p>
4.5	<p>Dim toiled hygyrch ar y safle o gwbl ar hyn o bryd.</p>	<p>O safbwynt y cwestiwn o pa blant fydd yn cael eu lleoli yn yr Uned, bydd hyn yn benderfyniad i'r Pennaeth a Chorff Llywodraethol Ysgol Chwilog.</p>
4.6	<p>Rhaid sicrhau bod maint y dosbarthiadau yn addas i sicrhau ansawdd a safonau addysg uchel. Mae ambell ystafell ddsbarth ar hyn o bryd yn rhy fach. Mae hyn yn cael effaith ar lesiant staff.</p>	
4.7	<p>Bod y Cyngor yn edrych i ddatblygu ac uwchraddio'r ysgol ymhellach yn y blynyddoedd nesaf</p>	
4.8	<p>Byddwn yn bryderus ynglŷn â chapasiti arfaethedig yr ysgol a'i chymesuredd i faint ystafelloedd dosbarth, y brif neuadd, a lle</p>	

	<p>byddai'r plant yn debygol o gael eu prydau ysgol. cynyddu i 109 yn dilyn y 4 blynedd academaidd nesaf.</p> <p>Hefyd, rwyf yn lleisio pryder ynghylch ystafell staff a chyfleusterau glanhau/toiledau.</p>	
4.9	<p>Mae gennym gonsyrn nid yn unig am nifer y dosbarthiadau ond eu maint hefyd - ynghyd á gweddill adeilad yr ysgol gan gynnwys y neuadd, ystafell athrawon, toiledau staff, storfeydd addas, gofod addas a thawel i leoli grwpiau targed.</p>	
4.10	<p>O bosib ystyried edrych ar ehangu'r cyswllt rhwng y caban a mynedfa'r ysgol. Posib symud y maes parcio i'r cae ac ymestyn yr ysgol?</p>	
4.11	<p>Mae'r ysgol wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf ac rydym wir angen mwy o le er mwyn cadw'r disgyblion yn ddiogel ac yn gyfforddus.</p> <p>Nid oes ar hyn o bryd , digon o le i bawb fwyta yn y neuadd, mae rhai o'r plant yn gorofd bwyta yn y cyntedd.</p> <p>Nid oes lle i bawb yn y neuadd pan yn cynnal gwasanaeth wythnosol.</p> <p>Mae rhai o'r dosbarthiadau yn gyfyng iawn hefyd e.e y dosbarth canol ble mae blynyddoedd 2 a 3.</p> <p>Byddai caban yn estyniad gwerthfawr iawn i'r ysgol a byddai'n syniad rhoi blynyddoedd hynaf yr ysgol yma gan eu bod yn fwy annibynnol ac aeddfed.</p> <p>Mae staff sydd ar GPA angen ystafell benodol sy'n ddistaw a chyfforddus ac yn cynnig digon o le.</p> <p>Nid oes ychwaith ystafell athrawon yma ar hyn o bryd sydd yn broblem arall. Does gennym ni fel staff, ddim lle diogel i gadw ein bagiau a'n cotiau. Rydym hefyd yn gorfod defnyddio un o'r dosbarthiadau i fwyta ein cinio.</p>	

	<p>Byddai'r staff yn gwerthfawrogi toiled addas sy'n fwy preifat o ran ei leoliad - ar hyn o bryd, mae'r toiled reit wrth y brif fynedfa a drws nesaf i'r swyddfa sydd ddim yn ddelfrydol iawn! Mae dynion a merched yn rhannu'r un toiled.</p> <p>Nid oes ystafell neilltuol ar gyfer y meithrin yma - ar hyn o bryd maent yn cael eu dysgu yn neuadd y pentref - nid yw hyn yn sefyllfa delfrydol.</p> <p>Gan fod niferoedd mawr ym mhob dosbarth bellach, nid oes lle i bawb roi eu cotiau ar begiau yn anffodus. Canlyniad hyn yw bod cotiau a bagiau ar hyd y lloriau yn aml sydd yn fler ac yn hynod o beryglus. Tybed a fyddai loceri yn fwy addas neu cyntedd cotiau mwy ar gyfer pob dosbarth - ond eto mae lle yn brin!</p> <p>Gan ein bod yn annog rhieni i beidio defnyddio eu ceir pan yn casglu eu plant, maent yn aml yn gorfod sefyll yn y gwynt a'r glaw ar dir yr ysgol. Tybed a fyddai modd cael rhyw fath o loches ar eu cyfer?</p> <p>Rydw i hefyd yn amau fod ystafell toiledau'r plant yn rhy fychan erbyn hyn - wrth eu gyrru i olchi eu dwylo cyn cinio, mae rhesi a rhesi o blant yn gorfod disgwyl eu tro.</p> <p>Mae tamprwydd i'w weld yn nosbarth blwyddyn 4, 5 a 6 ar hyn o bryd - cafodd ei drin sbelan yn ol, ond mae'n ei ol eto. mae plastr yn disgyn oddi ar y waliau.</p>	
4.12	<p>Yn sicr mae angen ystyried buddsoddi mewn datblygu'r ysgol.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Nid oes man penodol i'r staff gael amser CPA. - Nid oes ystafell i'r meithrin ar dir yr ysgol, maent ar hyn o bryd yn cael eu dysgu yn neuadd y pentref. Nid yw hyn yn ddelfrydol. - Dim digon o doliedau i'r plant, mae'r plant ieuengaf yn gorfod rhannu 2 doiled rhwng 31 o blant. - Dim ardal digon fawr i gadw bag a chotiau y plant drwy'r ysgol, mae rhai o blant Cyfnod Sylfaen yn gorfod symud eu cotiau a bagiau i fyny i dop yr ysgol er mwyn cael lle. Nid yw hyn yn briodol gan fod y plant yn gallu crwydro. 	

	<ul style="list-style-type: none"> - Mae'r neuadd yn fach i'r niferoedd sydd gennym. Mae rhai o blant sydd ar focs bwyd yn gorfod bwyta eu cinio yn y coridor. - Mae dosbarth blynyddoedd 2 a 3 yn gyfyngiedig iawn ar gyfer y niferoedd sydd gennym yn dod i fyny o'r Cyfnod Sylfaen. Yn sicr byddwn yn elwa yn fawr o gael caban i ddarparu ar gyfer y niferoedd o ddisgyblion sydd gennym. - Mae toiledau y staff wrth y brif fynedfa, nid yw hyn yn ddelfrydol. Ac mae rhaid i ddynion a merched rannu yr un toilet. - Nid oes gennym ystafell staff i gael eistedd yno i gael paned a chinio. Rydym yn gorfod defnyddio un o'r dosbarthiadau i fwyta ein cinio. - Nid oes lle yn y neuadd i gynnal gwasanaethau a chyfarfodydd fel ysgol gyfan. - Llawer o damprwydd o gwmpas y ffenestri yn y dosbarthiadau 	
4.13	<p>Maer ysgol wedi cynyddu ers i mi gychwyn,ac rwyf yn teimlo ein bod angen fwy o le ir disgyblion ar staff.Nid oes digon o le i bawb fwyta ei cinio yr un pryd, maer amser gwasanaeth hefyd efo dim digon o le.Nid oes ystafell athrawon i ni gael mynd i bwyta ein bwyd a cael seibiant mi fuasai neis i ni fel staff gaer loceri ein hunain i gadw pethau personol a cotiau a.y.y.b ar hun o bryd rydym yn gorfod bwyta ein cinio yn un or dosbarth. Byddair staff i gyd yn gwerthfawrogi toiled fwy preifat o ran lle,ar hun o bryd mae o reit wrth y brif fynedfa a drws nesa i swyddfa y pennaeth a hefyd rydym yn gorfod rhannu efo dynion.</p> <p>nid oes ystafell neilltuol ir dosbarth meithrin teimlo nad ydynt yn perthyn ir ysgol gan eu bod nhw yn y neuadd y pentref.</p> <p>nid oes ddigon o begiau ir plant rhoid ei bagiau a cotiau,felly ar hun o bryd llawer ohonynt ar llawr yn ffler.</p> <p>mi fuasai riw fath o loches yn braf ir rhieni i gysgodi or gwynt ar glaw.</p>	

	<p>Nid oes ddigon o doiledau ir plant dosbarth blwyddyn un a derbyn. Mae yna tamprwydd yn nosbarth 4,5 a 6 ar hyn o bryd.</p>	
4.13	<p>Fel rhiant i blentyn Meithrin sydd mewn dosbarth oddi ar y safle eleni, mae'n bwysig iawn bod y caban am fod yn rhan naturiol o'r ysgol a ddim yn cael ei weld fel adnodd ar wahan. Bosib ystyried coridor neu linc o'r prif adeilad i'r caban falla.</p> <p>Gyda cynnydd yn niferoedd yr ysgol, yn naturiol mae hynny yn golygu bod ystyriaeth angen ei roi i gynyddu maint pethau eraill yn yr ysgol hefyd - storfeydd, maint y neuadd, toiledau, maint y dosbarthiadau ayyb.</p>	
4.14	<p>Mae niferoedd y plant sy'n mynychu wedi cynyddu yn sylweddol ac felly mae diffyg lle yn broblem fawr. Does dim digon o doiledau i blant Blwyddyn Derbyn ac 1. Dim ystafell pwrpasol i'r meithrin ac yn gorfod defnyddio neuadd y pentref ac felly dydyn nhw ddim yn teimlo eu bod yn rhan o'r ysgol. Does dim lle addas i'r plant hongian eu cotiau a'u bagiau ac yn dueddol o orfod gadael y bagiau ar y llawr sydd yn beryg i bobl faglu.</p> <p>Does dim lle addas i aelodau staff i gael lle i gael paned na cinio gan ein bod y defnyddio ystafell ddosbarth i fwyta ein cinio a ddim yn cael seibiant pwrpasol gan nad oes ystafell addas ar ein cyfer. Hefyd yn ystod cyfnod cyfnodau cynllunio athrawon does dim stafell addas i gael llonyddwch heb orfod ateb y ffon neu aelod arall yn dod i mewn i estyn adnoddau.</p> <p>Mae'r neuadd yn rhy fach i bawb gael cinio gyda'u gilydd ac hefyd yn anaddas i gynnal gwasanaethau ysgol gyfan am nad ydi'r neuadd ddigon mawr.</p> <p>Mi fysai'n hwylus cael lle pwrpasol i aelodau staff cael cadw pethau personol yn ddiogel gan nad oes lle/stafell i ni gadw ein</p>	

	cotiau a bagiau. Dydi toiled y staff ddim mewn lle addas chwaith gan ei fod drws nesaf i'r swyddfa ac yn rhy agos at y fynedfa.	
4.15	Bydd cael caban yn datrys y broblem o diffyg lle i un dosbarth o blant.	
4.16	Ansawdd a safonau addysg - Os byddai mwy o le ar gael rwy'n ffyddiog y byddai'r disgyblion yn llwyddo i weithio'n well. Hynny yw byddai'r dosbarthiadau yn fwy a bydd ardaloedd ymyraethau tawel yn bosib.	
5.	Opsiynau amgen	
5.1	Dylai opsiynau eraill fod wedi eu hystyried flynyddoedd yn ol, gan ei bod bellach braidd yn hwyr i hyd yn oed ystyried posibiladau eraill yn anffodus. O gysidro problemau parcio, diffyg ystafell athrawon, a chegin/ ffreutur all brofi'n annigonol, efallai mai ail-leoli'r ysgol fyddai wedi bod y syniad gorau, petai wedi cael ei gysidro ddigon buan.	Doedd yr angen am fwy o lefydd yn Ysgol Chwilog ddim yn amlwg blynyddoedd yn ôl. Dim ond yn gymharol ddiweddar mae'r niferoedd wedi dangos cynnydd sylweddol o 52 yn 2019, oedd 19 dan gapasiti yr ysgol, i 76 yn Medi 2021. Nodir eich sylw mai ail-leoli'r ysgol efallai fyddai wedi bod y syniad gorau ond byddai ystyried gwneud hynny wedi golygu proses fyddai'n cymryd blynyddoedd pan fo angen datrysiad brys i sefyllfa'r ysgol.
5.2	Opsiwn arall yn hytrach na chaban fyddai estyniad iawn i'r ysgol fel bod y disgyblion i gyd o dan yr un to.	Oherwydd ein bod angen creu'r dosbarth ychwanegol yma erbyn 1 Medi 2023, er mwyn ymateb i sefyllfa brys am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwilog. Mae'n fwriad i wneud hyn drwy ddefnyddio Unedau MMC (Modern Methods of Construction). Mae'r rhain yn barod wedi eu defnyddio mewn ysgolion eraill yn y sir ac yn profi i fod yn ddosbarthiadau effeithiol a phoblogaidd. Mae llawer o fanteision i ddefnyddio'r Unedau MMC gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Mwy o gysondeb yn y deunyddiau sydd yn cael eu defnyddio
5.3	Estyniad parhaol i'r ysgol yn hytrach na chaban.	
5.4	Estyniad iawn ar gyfer cael y disgyblion i gyd o dan yr un to	
5.5	Opsiwn yn lle caban yw cael estyniad i'r ysgol lle fysar plant i gyd o dan yr un to.	

5.6	Byddai cael estyniad yn fwy addas er mwyn rhoi'r cyfleuoedd addysgu gorau posib i'r disgyblion yn ogystal a cael pawb o deulu'r ysgol o dan yr un to i gael teimlad o berthyn.	<ul style="list-style-type: none"> • Haws defnyddio deunyddiau ysgafnach sydd yn arbed ynni • Yr adeiladau yn medru cael eu hadeiladu i unrhyw faint a siâp. • Adeiladau yn llawer haws i'w cynhesu, gyda llai o ddefnydd o ynni nag adeiladau traddodiadol. • Mae'r adeiladau yn cydymffurfio, neu'n rhagori ar ofynion ynni y Rheoliadau Adeiladu. • Strwythur modiwl yr adeiladau yn golygu fod mwy o hyblygrwydd wrth ddylunio'r gofod mewnol. • Cyfnod adeiladu ar y safle yn llawer byrrach nag adeilad o wneuthuriad traddodiadol
6. Effaith ar y Gymraeg		
6.1	Nifer o rieni sy'n medru'r Gymraeg yn dymuno peidio ei siarad a'u plant. Rhai o'r plant yn cyrraedd yr ysgol, gyda Chymraeg annigonol i allu ymdoddi i fewn i lif naturiol yr ysgol. Oes felly angen dosbarth arall er mwyn gwella Cymraeg y plant hyn fel nad yw eu diffygion hwy yn cael effaith negyddol ar ddsbarthiadau y rhai sy'n meddu'r Gymraeg?	<p>Mae gan yr Adran Addysg Ganolfannau Iaith wedi eu lleoli ar draws y Sir, gan gynnwys un yn Nwyfor, sy'n derbyn hwyrdyfodiaid sy'n cyrraedd ysgolion lleol fel Ysgol Chwilog, ac mae Penaethiaid ac athrawon ysgolion prif lif y dalgylch yn gallu cyfeirio dysgwyr sydd heb y Gymraeg neu yn ddi-hyder eu sgiliau siarad, ysgrifennu a gwrandao y Gymraeg i sylw'r Gyfundrefn Addysg Drochi. Yn ddiweddar, mae staff y Gyfundrefn Addysg Drochi hefyd wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddiant ar egwyddorion trochi iaith yn y Cyfnod Sylfaen i athrawon a chymorthyddion ysgolion ledled y sir, er sicrhau bod trochi priodol yn digwydd yn y Cyfnod Sylfaen. At hyn, mae gan y Canolfannau Iaith draddodiad hir o ddarparu cynhaliath Gloywi Iaith i ddysgwyr prif lif sydd angen hwb ychwanegol efo'u sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg. Gan fod y Gyfundrefn Drochi newydd wedi dod yn weithredol ers dechrau Ionawr 2023, bydd yr Adran yn sicrhau parhad o'r arfer yma o allu cynnig sesiynau gloywi iaith i blant a phobl ifanc yn ein hysgolion, er mwyn atgyfnerthu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg ymhellach.</p> <p>Felly mae'r gwasanaeth yma ar gael i gynnig cymorth i'r plant hynny sydd angen gwella eu Cymraeg, ac i ysgolion sydd angen cymorth gyda throchi dysgwyr yn y prif lif.</p>

6.2	A yw hi'n amser i ddynodi'r ysgol yn Ysgol Gymraeg, er mwyn gwarchod buddiannau?	Mae'r drefn genedlaethol o gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg wedi dod i rym ers Medi 2022. Yn unol â chanllaw Llywodraeth Cymru ar y drefn gategoreiddio, ynghyd â gofynion Polisi Iaith Addysg Gwynedd, mae ysgolion cynradd Gwynedd yn disgyn i Categori 3 Cyfrwng Gymraeg, gan fod y meini prawf yn adlewyrchu ein polisi iaith addysg presennol o ran darpariaeth cwricwlwm ac iaith weinyddol ein hysgolion, sef ysgol ble'r Gymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol, ac ysgol sydd ag ethos Gymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.
6.3	Cyhyd â bod yr ysgol yn parhau i gynnig y Gymraeg fel iaith gyntaf, nid wyf yn ystyried hyn yn bryder.	Bydd Ysgol Chwilog yn parhau i gynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r Polisi Iaith Addysg Gwynedd.
7 Effaith ar Llesiant		
7.1	Oes posibl ystyried yr ardal staff bresenol mewn unrhyw ddatblygiad o ran eu llesiant nhw? Mae'r ardal bresenol yn fychan iawn fel mae nifer staff wedi tyfu. Mae hyn hefyd yn wir am nifer y cyfleusterau megis toiledau i staff a phlant, ynghyd â lle i fwyta cinio	Bydd ychwanegu Uned yn creu opsiwn i greu gofod ar gyfer y staff. Mae'n fwriad hefyd i leoli toiledau ychwanegol yn yr Uned a chreu toiledau staff newydd. Byddwn yn ymestyn y neuadd/ffreutur presennol er mwyn creu mwy o le i blant fwyta eu cinio.
7.2	Llesiant staff - angen gofod pwrpasol iddynt gael eu cinio (ystafell athrawon addas). Angen adolygu cyfleusterau toiledau staff a disgyblion.	
7.3	Llesiant disgyblion - angen gofod addas i gynnal sesiynau grwpiau targed.	Bydd creu'r Uned yn cynnig cyfle i allu lleoli adnoddau yn ychwanegol i ddsbarth gan gynnwys gofod ar gyfer cynnal sesiynau grwpiau targed.
7.4	Ystyried disgyblion a all fod ag anabledd corfforol a chynnig cyfleusterau priodol	Bydd anghenion unrhyw blentyn gydag anghenion anabledd corfforol yn cael eu hystyried yn unol â pholisïau Hygyrchedd a Chydaddoldeb yr Adran Addysg.

7.5	Bydd y caban yn cynnig mwy o le i'r disgyblion a'r staff fydd yn creu awyrgylch brafiach a mwy diogel i weithio ynddo. Felly yn effeithio ar les pawb yn y bôn. Gallwn wedyn gael ystafelloedd mwy preifat ar gyfer CPA, grwpiau ymyrraeth ayb	Bydd creu'r Uned yn cynnig cyfle i allu lleoli adnoddau yn ychwanegol i ddsbarth ychwanegol gan gynnwys gofod ar gyfer CPA, grwpiau ymyrraeth ayb
7.6	Bydd llawer mwy o le sy'n golygu bydd mwy o chwarae teg i'r disgyblion e.e. tawelwch i weithio ac ardaloedd i gynnal sesiynau ymyrraethau amrywiol.	
7.7	Yn sicr bydd y caban yn sicrhau awyrgylch brafiach i'r disgyblion a'r staff.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.
7.8	Mi fuasai caban yn brafiach ir plant ar staff, hefyd mi fuasent yn teimlo ei bod yn perthyn ir ysgol gweld ni gyd o dan yr un to.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.
8	Ymateb Estyn	

Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Gwynedd i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Chwilog o 65 i 95 o ddisgyblion trwy ychwanegu ystafell ddosbarth a fydd yn weithredol o 1 Medi 2023. Bydd hwn yn gynydd o dros 25% i nifer y lleoedd presennol.

Cyflwyniad

Mae hwn yn gynnig gan Gyngor Gwynedd i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Chwilog o 65 i 95 o ddisgyblion trwy ychwanegu ystafell ddosbarth a fydd yn weithredol o 1 Medi 2023.

Mae'r cynigiwr yn nodi bod nifer y disgyblion yn Ysgol Chwilog wedi cynyddu'n gyson ers sawl blwyddyn a bod yr ysgol wedi cyrraedd ei llawn gapasiti, sef 65 o ddisgyblion, er 1 Medi 2022.

Dywed y cynigiwr fod ystâd dai newydd wedi'i hadeiladu yn y pentref dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a bod caniatâd cynllunio ar gyfer dwy ystâd arall. Gallai hyn arwain at gyfanswm o hyd at 39 o dai ychwanegol, a disgwylir y bydd hyn yn arwain at fwy o alw am leoedd yn Ysgol Chwilog.

Mae'r cynigiwr yn esbonio'r ymresymiad y tu ôl i'r cynnig yn glir. Mae hyn yn cynnwys diffyg lle yn yr ysgol i fodloni'r cynnydd cyfredol yn nifer y disgyblion, ynghyd â'r rhagamcanion ar gyfer cynnydd pellach yn nifer y disgyblion o ganlyniad i dai newydd sydd wedi'u lleoli yn nalgylch yr ysgol.

Crynodeb/Casgliad

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau cyfredol o leiaf o ran addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Disgrifiad a manteision

Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.

Mae'r cynigiwr wedi nodi sail resymegol glir ar gyfer y cynnig ac yn rhoi rhesymau ynghylch pam y mae angen newid.

Mae'r cynigiwr wedi nodi cryfderau a gwendidau'r sefyllfa bresennol yn briodol. Mae'r cryfderau'n cynnwys cydnabyddiaeth gan Estyn o'r defnydd a wneir gan ddisgyblion o'r Gymraeg a'r gwelliannau amlwg yn y defnydd o TGCh ar draws llawer o weithgareddau'r ysgol. Y prif wendid, a'r hyn y mae'r ymgynghoriad yn ceisio ymateb iddo, yw'r diffyg lle o ganlyniad i gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol.

Mae'r cynigiwr yn cydnabod yr angen i gynnwys manylion ac ystadegau am bob un o'r pedair ysgol gyfagos y gallai'r cynnig yn y ddogfen ymgynghori effeithio arnynt. Mae'r cynigiwr yn datgan yn glir na fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r ysgolion, gan mai cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Chwilog yw unig nod yr ymgynghoriad.

Mae'r cynigiwr yn cynnwys data cyfredol sy'n ymwneud â datblygiadau tai newydd, gan ragamcanu y gallai nifer y plant mewn 39 o dai newydd fod yn gyfystyr â thuag 16 o ddisgyblion oed cynradd.

Mae'r cynigiwr yn cynnwys arfarniad manwl o'r opsiynau, sy'n archwilio modelau posibl i ymateb i'r problemau y mae Ysgol Chwilog yn eu hwynebu. Mae'r 3 opsiwn yn cynnwys gwneud dim; creu capasiti ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion trwy leoli dosbarth newydd yn Ysgol Chwilog; neu greu capasiti ar gyfer cynnydd yn nifer y disgyblion yn nalgylch Chwilog trwy leoli dosbarth newydd ar safle ysgol arall gyfagos.

Ar ôl cymharu'r 3 opsiwn yn erbyn 8 ffactor allweddol, daeth y cynigiwr i'r casgliad mai'r opsiwn dewisol oedd creu capasiti ar

gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion yn nalgylch Chwilog trwy leoli dosbarth newydd ar safle Ysgol Chwilog, a fydd yn weithredol o fis Medi 2023.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i effeithiau'r cynnig ar ansawdd deilliannau, darpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol. Mae'r awdurdod lleol yn datgan ei nod o gynnig addysg o'r ansawdd gorau posibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y medrau a'r hyder sydd eu hangen ar ddisgyblion i'w galluogi i ddatblygu'n ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth fwriadus i adroddiad arolygu diweddaraf Estyn, gan gynnwys prif bwyntiau'r adroddiad, fel yr arweinyddiaeth gref, corff llywodraethol ymroddgar a chefnogol, lefelau uchel o waith tîm ymhlith y staff, staff sy'n cyflwyno profiadau dysgu o ansawdd uchel a hyrwydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae hefyd wedi cyfeirio at y 2 argymhelliad. Mae'r cynigiwr o'r farn, trwy roi'r cynnig ar waith i gynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol trwy greu dosbarth newydd, y bydd yn cefnogi'r ysgol i gyflawni ymhellach, er enghraifft trwy gynnig amgylchedd dysgu gwell i staff addysgu a dysgwyr yn yr ysgol, gan alluogi disgyblion yr ysgol i gael profiadau a chyfleoedd addysgol gwell.

Mae'r cynigiwr wedi sicrhau y byddai cyn lleied â phosibl o darfu ar ddisgyblion, gan y byddai'r gwaith i gynyddu nifer y lleoedd yn cael ei gwblhau yn ystod gwyliau'r haf. Byddai'r holl gostau o fewn y gyllideb, gan gynnwys cyllid i gyflogi athro am 2 flynedd. Byddai hyn yn caniatáu amser i'r niferoedd yn yr ysgol gynyddu o ganlyniad i ddatblygiadau tai ac i'r ysgol gynllunio strwythur staffio priodol i ymateb i'r cynnydd.

9.	Ymateb Plant	
Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gyda cynrychiolaeth disgyblion yr Ysgol (ymatebion i'w gweld yn Atodiad B) a derbyniwyd un ymateb annibynnol isod		
9.1	<p>Cael mwy o le yn yr ysgol fel bod dim angen i'r meithrin fynd i neuadd y pentref.</p> <p>Does dim byd yn fy mhoeni am hyn.</p> <p>Y pethau pwysicaf i mi yn yr ysgol ydi mynd i'r ysgol bob dydd a dysgu pethau newydd</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.</p>